GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Triniaeth Laser (Ffoto-geulad ar gyfer Retinopathi Diabetig a chlefydau retinol eraill**

**Uned Llygaid**

---

**Deall triniaeth Laser**
Caiff y laser ei ddefnyddio ar gyfer sawl cyflwr gwahanol sy'n effeithio ar y llygaid fel clefyd y llygaid sy'n gysylltiedig â diabetes, newidiadau'n ymwneud â heneiddio a chlefydau retinol eraill. Mae ffoto-geulad laser yn defnyddio'r gwres a geir mewn laser i selio neu ddinistrio pibelli gwaed annormal, sy'n gollwng yn y retina.

Mae'r driniaeth yn cynnwys anelu pelydr o olau tuag yr ardal benodol yn y llygaid y mae angen ei thrin. Gall hyd sesiwn triniaeth laser bara am hyd at 30 munud neu fwy. Mae'n bosib y bydd angen mwy nag un driniaeth arnoch yn dibynnu ar y cyflwr sy'n effeithio ar eich llygaid.

**Pam y caiff ei wneud?**
Caiff triniaeth laser ei wneud gan fwyaf i sefydlogi golwg ac atal colli rhagor o olwg yn hytrach na gwella golwg.

**Sut caiff y driniaeth ei chyflawni?**

- Yn gyffredinol caiff y driniaeth ei chyflawni mewn clinig claf allanol ac fel arfer does dim rhaid i chi aros yn yr ysbyty.
- Pan gyrhaeddwch y clinig caiff eich golwg ei asesu ac mae'n bosibl y rhoddir diferion yn eich llygaid i ledu cannwyll y llygaid.
- Bydd y meddyg wedyn yn esbonio'n gryno pam mae angen y driniaeth laser arnoch. Bydd hefyd yn gofyn i chi arwyddo ffurflen gydsynio.
- Wedyn cewch eich harwain i'r ystafell laser, a bydd y meddyg yn rhoi diferion anesthetig yn eich llygaid i'w gwneud yn ddideimlad cyn y gosodir lens gyffwrdd arbennig ar y llygaid sydd angen triniaeth.
- Yn ystod y driniaeth byddwch yn gweld fflachiadau o olau ac yn clywed sŵn clicio. Mae'n bosib y gofynnir i chi symud eich llygaid i gyfeiriadau penodol; gellir gwneud hyn yn rhwydd hyd yn oed wrth wisgo'r lens.

**A ydyw yn boenus?**
Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r driniaeth yn ddi-boen, ond gall achosi anesmwythdra i rai pobl. Os ydych yn teimlo'n anesmwythdra difrifol, rhowch wybod i'r arbenigwr llygaid.

Yn dilyn sesiynau o driniaethau maith, mae'n ddigon cyffredin i chi gael cur pen a gellir ei drin â chyffuriau lleddfu poen syml fel tabledi Parasetamol.

**A oes gan driniaeth laser unrhyw sgîl-effeithiau?**

Nid yw unrhyw driniaeth yn bosibl heb rywfaint o sgîl-effeithiau, ond mae risgiau triniaeth laser yn llawer llai na'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chael triniaeth laser.
Ar ôl y driniaeth maen bosib y bydd eich golwg yn aneglur ond fel arfer effaith dros dro yw hynny. Os ydych yn cael sesiynau o driniaethau laser niferus gallwch golli ychydig o'ch golwg ar yr ochr (golwg perifferol) a gall hynny effeithio ar eich gallu i yrru'n ddiogel. Rhaid i chi roi gwybod i'r DVLA os ydych yn cael triniaeth laser ar y ddwy lygaid. Os oes unrhyw bryderon gennych ynghylch sgîl-effeithiau triniaeth laser dylech eu trafod gyda'r arbenigwr llygaid.

**Nodiadau pwysig:-**

1. Peidiwch â gyrru i'r ysbyty ar gyfer eich apwyntiad. Gall y diferion lledu bara am oriau, sy'n achosi'r golwg i fod yn aneglur. Bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i yrru'n neu weithredu peiriannau'n ddiogel am weddill y dydd.

2. Os oes unrhyw bryderon gennych ynghylch eich triniaeth ffoniwch y canlynol:

   Adran Cleifion Allanol Llygaid ar:-
   Rhif ffôn ffôn:- 01633 238413
   Rhwng 8.30am a 5.00 pm

**NODIADAU PERSONOL**

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**